**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Rhithwir o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2022.**

***[Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig, a bydd cofnodion llawn o'r cyfarfod gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w cymeradwyo.***

***Mae'r dogfennau ar gyfer y cyfarfod uchod ar wefan y Cyngor ynghyd â gweddarllediad o'r gweithgareddau].***

| | |
|---|---|
| **Yn Bresennol** | Y Cynghorydd Robin Williams (Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig oherwydd absenoldeb y Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd K P Hughes (Is-gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig oherwydd absenoldeb yr Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Eric W Jones, Dafydd Roberts, Ieuan Williams.<br><br>Y Cynghorydd Richard A Dew – Aelod Portffolio (Cynllunio) |
| **Ymddiheuriadau** | Y Cynghorwyr Richard O Jones a Nicola Roberts |
| **Hefyd yn bresennol:** | Aelodau Lleol: Y Cynghorydd Aled M Jones (cais 7.1).<br><br>Y Cynghorwyr Jeff Evans, Alun Mummery, Bryan Owen. |

1.00 o'r gloch yp - 2.15 o'r gloch yp

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **2 DATGANIAD O DDIDDORDEB** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Datganodd y Cynghorydd K P Hughes ddiddordeb personol mewn perthynas â chais 12.1 ond, ar ôl derbyn cyngor cyfreithiol, roedd yn gallu siarad a phleidleisio ar y cais.<br><br>Datganodd y Cynghorydd Robin Williams ddiddordeb personol sy'n rhagfarnu mewn perthynas â chais 7.1. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 COFNODION** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2022 a chadarnhawyd eu bod yn gywir. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 YMWELIAD SAFLEOEDD** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Ni chynhaliwyd yr un ymweliadau safle yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2022. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 SIARAD CYHOEDDUS** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Roedd Siaradwyr Cyhoeddus mewn perthynas â cheisiadau 12.2 a 12.3. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EI GOHIRIO** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 CEISIADAU'N GODI** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **7.1 FPL/2021/304 - Cais ôl-weithredol i ddefnyddio carafán sefydlog ar gyfer defnydd gwyliau yn The Lodge, Capel Bach, Rhosybol**<br><br>**PENDERFYNWYD ail-gadarnhau penderfyniad blaenorol y Pwyllgor i ganiatáu'r cais yn groes i argymhelliad y Swyddog.**<br><br>**7.2 FLP/2021/302 – Cais llawn i newid defnydd tir o dir amaethyddol i safle ar gyfer 10 carafán deithiol yn Bunwerth, Trearddur**<br><br>**PENDERFYNWYD ail-gadarnhau penderfyniad blaenorol y Pwyllgor i ganiatáu'r cais yn groes i argymhelliad y Swyddog.** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 CEISIADAU ECONOMAIDD** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd ceisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 CEISIADAU AM DY FFORDDIADWY** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd ceisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 CEISIADAU'N GWYRO** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **10.1 VAR/2021/84 - Cais o dan Adran 73 i ddiwygio amod (03) (Cynlluniau Cymeradwy) o ganiatâd cynllunio rhif VAR/2021/11 (diwygio amod (02) o ganiatâd cynllunio rhif 36C320A a MAO/2018/3 (Codi annedd) er mwyn newid y dyluniad) er mwyn diwygio dyluniad y modurdy yn Tŷ Uchaf, Llangristiolus**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd unrhyw gynigion o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 GWEDDILL Y CEISIADAU** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **12.1 FPL/2021/316 – Cais llawn ar gyfer newid defnydd ac adnewyddu dau adeilad amaethyddol i greu golchdy masnachol ynghyd â gwella'r fynedfa ym Mryn Glas, Llanrhuddlad**<br><br>**PENDERFYNWYD y dylid cynnal ymweliad safle rhithwir yn unol â chais yr Aelod Lleol ac am y rhesymau a nodwyd.**<br><br>**12.2 HHP/2021/331 – Cais ôl-weithredol ar gyfer cadw addasiadau ac estyniadau sy'n cynnwys balconi yn Glan y Môr, Lôn Cei Bont, Porthaethwy**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |

| | |
|---|---|
| | **12.3 FPL/2021/337 – Cais llawn ar gyfer adeiladu Cyfleuster Ffiniau Mewndirol yn hen Safle Tryciau RoadKing, Parc Cybi, Caergybi**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau yn yr adroddiad ysgrifenedig a dirprwyo pwerau i'r Pennaeth Gwasanaeth wneud unrhyw fân newidiadau i'r amodau yn ôl y gofyn.**<br><br>**12.4 FPL/2021/332 – Cais llawn ar gyfer gwaith gwella amddiffynfeydd rhag llifogydd ar yr arfordir yn Nhraeth Coch**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 MATERION ERAILL** |
| PENDERFYNIAD | **13.1 DEM/2022/1 – Caniatâd ymlaen llaw ar gyfer dymchwel adeilad Canolfan Gymunedol yng Nghanolfan Gymunedol Newry, Caergybi**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |